# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Dehongli'r Rhan hon*

### 21 Ystyr "gwasanaethau iechyd" a "gwasanaethau cymdeithasol"

(1) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at wasanaethau iechyd yn gyfeiriadau at wasanaethau a ddarperir (pa un ai yng Nghymru neu mewn man arall) o dan neu yn rhinwedd Deddf 2006, ar gyfer neu mewn cysylltiad ag—

(a) atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin;

(b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.

(2) Yn is-adran (1), mae i "salwch" yr ystyr a roddir i "illness" yn adran 206 o Ddeddf 2006.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at wasanaethau cymdeithasol yn gyfeiriadau at wasanaethau a ddarperir wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol.

(4) Yn is-adran (3), mae i "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol", mewn perthynas ag awdurdod lleol, yr un ystyr ag sydd iddo at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (gweler, yn benodol, adran 143 o'r Ddeddf honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(c)**

## 22 Ystyr termau eraill

Yn y Rhan hon—

ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("*Special Health Authority*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border Special Health Authority" yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "corff GIG" ("*NHS body*") yw—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) ymddiriedolaeth GIG;

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I4** A. 22 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Dehongli'r Rhan hon.